Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Ferch O'r Sgêr
# Greenfield Terrace
# Gogledd Corneli
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF33 4LW

## Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae ysgol benodedig Gymraeg y Ferch o’r Sgêr yn rhannu'r un safle ag ysgol gynradd Corneli a Chanolfan Plant Integredig Corneli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ar hyn o bryd, mae 245 o ddisgyblion yn yr ysgol sy’n cynnwys 61 o ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn. Mae’r ysgol yn gwasanaethu ardal eang sy’n cynnwys Porthcawl, Mynydd Cynffig, Y Pîl a Chefn Cribwr.

Caiff y disgyblion eu haddysgu gan 10 athro amser llawn ac un rhan amser ynghyd â 11 o gynorthwywyr mewn 9 dosbarth. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Lleolir yr ysgol mewn ardal ddifreintiedig a adnabyddir fel ardal ‘Cymunedau’n Gyntaf’ ac mae 19% o’r disgyblion yn byw yn yr ardal hon. Mae 12% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn is na’r canran sirol a chenedlaethol. Ychydig o’r disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref ac mae canran y disgyblion sydd o gefndir ethnig yn isel iawn ac yn llai na hanner canran yr awdurdod lleol.

Derbynia 15% o’r disgyblion gymorth anghenion addysgol ychwanegol, canran sy’n is na’r ffigwr cenedlaethol. Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol yn y flwyddyn cyn yr arolygiad ond fe gofnodwyd un gwaharddiad tros dro.

Mae cryn newid wedi bod yn staff addysgu’r ysgol ers yr arolygiad diwethaf ac mae’r pennaeth a’r dirprwy wedi bod yn eu swyddi am ychydig dros ddwy flynedd.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl yn 2011-2012 ar gyfer Ysgol y Ferch O'r Sgêr yw £3037. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Pen-y-bont ar Ogwr yw £5486 a’r isafswm yw £2737. Mae Ysgol Y Ferch O'r Sgêr yn 38$^{ain}$ allan o’r 52 o ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- patrwm clir o gynnydd tros bedair blynedd yn y ddau gyfnod allweddol mewn perthynas â disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd);
- perfformiad y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn well na'u perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ac yn dangos cynnydd da mewn dysgu tra yn yr ysgol;
- cymariaethau ag ysgolion y teulu y perthyn yr ysgol iddi yn dangos bod disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gyson yn perfformio yn uwch na chyfartaledd y teulu ym mhob pwnc; a bod
- canran disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad wedi cynyddu yn sylweddol er 2007, ac mae'r ysgol yn perfformio'n gyson well na'r teulu a Chymru ers tair blynedd yn ôl y mesur hwn.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth glir gan yr ysgol ac mae'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd;
- ffocws clir ar godi safonau ac ar ddiwallu anghenion y disgyblion a gwelwyd effaith gadarnhaol hyn ar y canlyniadau;
- data yn cael ei ddadansoddi yn drwyadl er mwyn monitro perfformiad ac mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu â'r teulu o ysgolion;
- y broses hunanarfarnu wedi gwreiddio ym mywyd yr ysgol ac mae'r adroddiad yn adnabod cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella, gan ddangos bod yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr yn adnabod eu hysgol yn dda; ac mae'r
- ysgol wedi ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn gwella dylai'r ysgol:

A1 leihau'r gagendor rhwng deilliannau disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yng nghyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau cysondeb o ran addysgu ar draws yr ysgol gan barhau i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu;

A3 barhau i gydweithio gyda rhieni a'r awdurdod i leihau'r absenoldebau heb ganiatâd; a

A4 pharhau i gydweithio gyda'r awdurdod i ddileu y gorwariant yn y gyllideb ac i wella diwyg allanol yr adeilad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau'r asesiadau sylfaen wrth i blant ddechrau yn yr ysgol yn dangos bod eu medrau yn is na chanrannau'r awdurdod lleol yn gyson. O'i gymharu â'i man cychwyn wrth ddechrau yn yr ysgol, mae cynnydd disgyblion mewn dysgu yn dda. Mae bron pob disgybl yn gwneud dwy lefel o gynnydd rhwng 7 ac 11 oed ac mae ychydig yn gwneud mwy o gynnydd.

Gall llawer o ddisgyblion alw i gof ddysgu blaenorol yn dda a defnyddio hyn yn bwrpasol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a'r cwestiynau a ofynnir gan yr athrawon. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau meddwl yn bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn siarad ac yn gwrando'n dda. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn darllen yn hyderus ac yn medru cyfeirio at amrywiaeth o lyfrau ac awduron yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru ysgrifennu'n dda mewn Cymraeg a Saesneg mewn amrywiaeth o agweddau megis deunydd dychmygol, cyfarwyddiadau mewn daearyddiaeth, cofnodion mewn hanes a thaflenni gwybodaeth mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw ysgrifennu ymestynnol yn agwedd sydd wedi datblygu'n llawn.

Mae'r safonau Cymraeg yn dda yn y ddau gyfnod allweddol ac mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant a hanes eu gwlad yn dda.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd) wedi codi'n raddol o 77% yn 2007 i 93% yn 2011. Cododd yn sylweddol yng nghyfnod allweddol 2 o 60% i 100% tros yr un cyfnod. Mae perfformiad y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn well na'u perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ac yn dangos cynnydd da mewn dysgu tra yn yr ysgol.

Mae cymariaethau ag ysgolion y teulu y perthyn yr ysgol iddi yn dangos yn 2011 bod disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gyson yn perfformio yn uwch na'r teulu ym mhob pwnc. Mae canran disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad wedi cynyddu yn sylweddol ers 2007. Mae'r ysgol yn perfformio'n gyson well na'r teulu a Chymru ers tair blynedd yn y mesur hwn. Yn gyffredinol, mae perfformiad y merched dros bedair blynedd o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn well na bechgyn yng nghyfnod allweddol 1, tra bod y gwrthwyneb yn wir yng nghyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau unigol. Yng nghyfnod allweddol un, nid oes gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt tros

bedair blynedd. Ar wahân i 2010/11 nid yw disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion nad ydynt yng nghyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, mae perfformiad y merched tros bedair blynedd o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn well na bechgyn ond mae'r gwrthwyneb yn wir yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at gadw'n heini a bwyta'n iach. Maent yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch priodol i'w hoed a'u haeddfedrwydd, er enghraifft wrth ddefnyddio'r we. Trwy'r ysgol, mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol yw cwrteisi a'r parch a amlygir gan y disgyblion at gyfoedion ac oedolion.

Mae lefel presenoldeb y disgyblion yn dda tros gyfnod o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran canran disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae canrannau absenoldebau heb ganiatâd yn uwch na chyfartaledd sirol a Chymru.

Wrth weithio, mae rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn frwdfrydig iawn wrth ymwneud â'u tasgau. Mae'r disgyblion yn datblygu medrau rhyngberthnasol da iawn ac amlygir hyn yn arbennig yng ngwaith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae'r disgyblion hyn yn mwynhau eu cyfrifoldebau ac maent yn ymwybodol fod ganddynt lais cryf sy'n dylanwadu ar fywyd a gweithgareddau dyddiol yr ysgol. Cefnogir elusennau cenedlaethol a rhyngwladol gan y disgyblion, ac mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae gan y disgyblion sylfeini da ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus ac yn darparu profiadau diddorol sy'n ymateb i anghenion y dysgwyr yn dda ac yn cyd-fynd â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Cynllunnir yn drylwyr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac mae'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig yn dda. Sicrheir cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gael profiadau eang wrth siarad a darllen ac wrth ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau ysgol.

Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygiadau cynaliadwy ac mae'r ysgol wedi sicrhau rhaglen gyfoethog sy'n ymwneud ag ailgylchu, garddio a masnach deg. Pennwyd diwrnodau arbennig i roi ffocws clir ac effeithiol i weithgareddau yn y maes hwn. Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda'r pwyllgor Eco ac wedi creu arddangosfeydd ac ardaloedd diddorol i ysgogi'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol o fewn yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu o ansawdd da ym mron pob gwers. Mae gwybodaeth drylwyr gan yr athrawon am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Defnyddia'r athrawon amrywiol strategaethau addysgu er mwyn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r staff cefnogi sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae pob athro wedi creu amgylchedd cyfoethog a deniadol yn eu dosbarthiadau sy'n ysgogi'r disgyblion.

Lle mae'r addysgu'n dda, mae cyflwyniadau bywiog a chyflymder pwrpasol sy'n sicrhau ymglymiad y dysgwyr. Gwneir defnydd cyson o ganmoliaeth ac anogaeth sy'n helpu i reoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Trwy gwestiynu effeithiol mae'r athrawon yn herio'r disgyblion i feddwl. Yn yr eithriad lle mae'r addysgu'n ddigonol, nid oes digon o weithgareddau gwahaniaethol wedi eu darparu ac mae cyflymder y wers yn rhy araf. O ganlyniad, mae rhai disgyblion yn methu aros ar dasg am gyfnod estynedig ac nid yw anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn nodwedd amlwg ac effeithiol o'r gwersi. Mae meini prawf llwyddiant yn cael sylw priodol ac yn ffocysu'r disgyblion ar sut i ddatblygu'u gwaith. Mae athrawon yn cynnwys disgyblion yn y broses o osod targedau ar gyfer gwella yn dda, a gweithredir hyn yn gyson gan gael effaith adeiladol ar waith y disgyblion.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi adborth defnyddiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ar gyflawniad a ffyrdd o wella. Defnyddir system dracio gyfrifiadurol yn effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion ac mae'r athrawon yn gwneud defnydd priodol o'r system hon i lywio cynllunio. Mae'r ysgol yn defnyddio data a barn broffesiynol yn dda er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r trefniadau adrodd i rieni yn dda ac mae'r adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnwys sylwadau ar gynnydd a'r ffordd ymlaen.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gofalgar a chynhwysol. Hyrwyddir bwyta'n iach a dulliau iachus o fyw yn dda. Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol. Cyfranna'r rhain yn effeithiol at les y disgyblion. Nodwedd arbennig o ofal yr ysgol yw'r clwb allgyrsiol newydd, sef clwb cadw'n cŵl, sy'n hybu ymddygiad. Mae'r clwb eisoes wedi dechrau diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda iawn.

Mae trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn glir, yn ddefnyddiol ac yn cydymffurfio â'r Côd Ymarfer. Yn ogystal mae'r ysgol yn adnabod anghenion y plant yn gynnar drwy arsylwi dosbarth ac asesiadau athrawon.

Mae cyfathrebu clir gyda rhieni a chydweithio da rhwng y ysgol ac asiantaethau allanol er mwyn dylanwadu ar safonau'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle sy’n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ym mhob agwedd o ddarpariaeth yr ysgol. Cynigir cwricwlwm sy’n gwbl hygyrch i bob disgybl.

Mae’r ysgol yn defnyddio’i hystafelloedd dysgu a’r coridorau’n dda ac wedi creu awyrgylch ysgogol ym mhob dosbarth sy’n hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol. Mae amrywiaeth da o adnoddau yn cael eu defnyddio yn bwrpasol er mwyn cyfoethogi profiadau’r disgyblion. Mae’r cynnal a’r cadw ar du mewn yr ysgol a thir yr ysgol yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol gan sicrhau ymrwymiad y llywodraethwyr, yr uwch dîm rheoli a’r staff. Llwydda’r uwch dîm rheoli i gydweithio’n effeithiol iawn ac maent yn defnyddio data yn dda i fonitro perfformiad. O ganlyniad, maent yn gwybod pa mor dda y mae'r ysgol yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Sicrhawyd ffocws clir ar godi safonau gan herio pob disgybl i wneud eu gorau a gwelwyd effaith hyn ar y canlyniadau tros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol ac yn cefnogi’r ffocws ar godi safonau a gweithredu blaenoriaethau'r ysgol yn dda.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol yn gydwybodol. Mae eu rôl fel cyfaill beirniadol yn datblygu'n dda ac mae dealltwriaeth dda ganddynt o sut y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae eu rhan yn y broses hunanarfarnu yn datblygu’n dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud er mwyn gwella. Serch hynny, nid oes ganddynt wybodaeth ddigon trylwyr o safonau mewn pynciau unigol.

Llwydda’r ysgol i roi sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac mae’r egwyddorion yn weithredol drwy’r adran. Datblygir medrau meddwl y disgyblion yn dda iawn ar draws yr ysgol a rhoddir llais clir i’r disgyblion wrth benderfynu ar agweddau o waith yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu drylwyr gan yr ysgol ac ystyrir ystod o dystiolaeth berthnasol yn effeithiol i adnabod cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella. Mae’r dystiolaeth yn cynnwys dadansoddiad data, arsylwadau dosbarth, edrych ar lyfrau disgyblion a chanfod barn rhieni a disgyblion. Yn ychwanegol, gwneir defnydd da o argymhellion gan yr awdurdod lleol yn dilyn ymweliadau monitro. Yn gyffredinol, mae ansawdd yr adroddiad hunanarfarnu yn dda, mae’r cryfderau a’r meysydd sydd angen eu gwella yn cael eu hadnabod ond nid ydynt bob tro yn ddigon clir.

Mae cyswllt priodol rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Codi safonau a gwella darpariaeth yw ffocws pendant y cynllun datblygu cyfredol. Mae'r cynllun yn bwrpasol ac mae'n cynnwys targedau meintiol clir. Gwna hyn waith y corff llywodraethol o fonitro cynnydd mewn safonau a herio'r ysgol yn haws.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu rhwydweithiau lleol llwyddiannus o gymunedau dysgu ac un rhwydwaith rhyngwladol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol tuag at wella canlyniadau disgyblion yn ogystal â chefnogi datblygiad proffesiynol y staff yn maes rhifedd a medrau meddwl.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol da sy'n cyfoethogi a chynnal profiadau addysgol a lles disgyblion. Mae perthynas dda gyda'r rhieni a chysylltiadau clos hefyd gyda'r gymuned leol. Daw rhieni yn gyson i gynorthwyo yn yr ysgol ac i wneud gwelliannau i ardal allanol yr ysgol. Cyfoethogir y cwricwlwm ymhellach drwy ymweliadau gan nifer o ymwelwyr a thrwy cysylltiadau'r ysgol gydag ysgolion mewn gwledydd fel yr Eidal a Sweden. Mae'r disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd yn sgìl partneriaethau amrywiol yr ysgol, yn cynnwys bod yn aelod o gynghreiriau chwaraeon, a gweithgareddau a gynhelir fel rhan o'r clwstwr.

Mae'r trefniadau gydag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd leol yn effeithiol, er enghraifft, i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol ac i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau'r disgyblion ymhellach. Yn ogystal, mae trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo disgyblion yn un ar ddeg oed sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Cydweithia'r ysgol yn dda gyda cholegau lleol i ddarparu lleoliad buddiol i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon. Mae'r ysgol yn parhau i weithio yn effeithiol gyda gwasanaeth addysg yr awdurdod ac ysgol gyfagos i ddod i gytundeb ar ddefnydd o gae chwarae.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y staff gymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn llawn. Mae'r ysgol yn rheoli staff yn dda ac yn eu defnyddio'n effeithiol i godi safonau. Defnyddia'r athrawon eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol ac mae'r cynorthwywyr dysgu yn cefnogi gwaith yr athrawon yn bwrpasol.

Mae lefelau staffio yr ysgol yn hael ac yn cael effaith negyddol ar gyllideb yr ysgol ac, o ganlyniad, bu gorwariant dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn cydweithio gyda'r awdurdod lleol i reoli a dileu'r gorwariant.

Mae gan yr ysgol adnoddau da ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion. Mae'r adeilad oddi mewn yn cael ei gynnal yn dda ond nid yw diwyg allanol yr adeilad cystal.

Gan fod safonau'r ysgol yn dangos patrwm clir o gynnydd, a'i bod yn gyson yn perfformio yn uwch na'r teulu ym mhob pwnc, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 1, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd) wedi codi'n raddol ers 2007 o 77% i 93% yn 2011. Ac yng nghyfnod allweddol 2 mae wedi codi yn sylweddol o 60% i 100% tros yr un cyfnod. Mae perfformiad y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn well na'u perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ac yn dangos cynnydd da mewn dysgu.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad wedi cynyddu yn sylweddol er 2007 ac mae'r ysgol yn perfformio'n gyson well na'r teulu a Chymru ers tair blynedd.

Mae data 2011 ar gyfer cyfnod allweddol 1, ac wedi'i feincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, yn dangos bod yr ysgol yn chwartel 2 mewn Cymraeg a mathemateg. Mae hyn yn gosod perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% uchaf ym mhob pwnc ond gwyddoniaeth, a oedd yn chwartel 3. Er nad oes patrwm tros gyfnod o bedair blynedd o ran y pynciau, mae'r dangosydd pynciau craidd wedi bod yn y ddau chwartel uchaf am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Roedd canlyniadau cyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfnod allweddol 1 am yr un cyfnod a phob pwnc yn chwartel 1, sy'n gosod perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf. Tros amser mae safonau cyfnod allweddol 1 yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim yn ymddangos ychydig yn well na chyfnod allweddol 2.

Mae cymariaethau ag ysgolion y teulu y perthyn yr ysgol iddi yn dangos yn 2011 bod disgyblion diwedd cyfnod allweddol 1 yn gyson yn perfformio yn uwch na'r teulu ym mhob pwnc. Tros gyfnod o bedair blynedd mae'r data yn dangos bod yr ysgol yn perfformio'n well na'r teulu am dair o'r pedair blynedd ym mhob pwnc ond Cymraeg. Mae data diwedd cyfnod allweddol 2 am 2011 yn well na chyfnod allweddol 1. Mae'n dangos bod y disgyblion yn perfformio yn uwch na'r teulu ym mhob pwnc ac yn union yn ôl y disgwyliadau yn seiliedig ar lefel her yr ysgol. Tros gyfnod o bedair blynedd dengys y data bod yr ysgol yn perfformio yn uwch na'r teulu yn gyson mewn Cymraeg ac am dair o'r pedair blynedd o ran y dangosydd pynciau craidd.

Mewn cymhariaeth â chyfartaledd ysgolion Cymru yn 2011 mae'r ysgol yn perfformio'n gyson uwch ym mhob pwnc ac yn uwch am dair o'r pedair blynedd o ran cyflawni'r dangosydd pynciau craidd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol.

Yng nghyfnod allweddol 1 ar gyfartaledd tros pum mlynedd mae disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio bron iawn gystal â disgyblion nad ydynt. Ar wahân i 2010/11 mae patrwm pendant yn dangos nad yw disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion nad ydynt yng nghyfnod allweddol 2.

Yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 roedd perfformiad y bechgyn yn well na'r merched o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd. Roedd y gagendor rhwng y rhywiau yn

well na’r teulu ym mhob pwnc ond gwyddoniaeth ac yn well na Chymru am y cyfan. Yn gyffredinol, mae perfformiad y merched dros bedair blynedd o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn well na bechgyn. Mae hyn yn arbennig o wir am y dangosydd pynciau craidd, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2011 roedd y canran o fechgyn (6.7%) nad ydynt yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg yn uwch na’r merched (0%). Yn gyffredinol tros gyfnod o bedair blynedd mae merched yn gwneud yn well na’r bechgyn o ran cyrraedd L3 mewn Cymraeg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 nid oedd gwahaniaeth rhwng perfformiad y rhywiau o ran cyrraedd L4+ gan fod y canran gyrhaeddodd hynny yn 100%. Tros gyfnod mae’r bechgyn wedi perfformio’n well na merched o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd a phob pwnc arall. Yn 2011 perfformiodd y merched ychydig yn well na’r bechgyn o ran cyrraedd L5 mewn Cymraeg a Saesneg ac yn sylweddol well ym mathemateg a gwyddoniaeth. Ni chafodd yr un bachgen L5 mewn ysgrifennu mewn Cymraeg na Saesneg yn 2011.

Roedd y canran gyrhaeddodd y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 2011 yn uwch na’r teulu ym mhob pwnc. Roedd y canran yn uwch na Chymru ym mhob pwnc ond gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 2 roedd y canran gyrhaeddodd y lefelau uwch yn uwch na’r teulu ym mhob pwnc ond Saesneg.

Mae data 2011 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio yn well na’r teulu a Chymru ym mhob agwedd o lythrennedd Saesneg a Chymraeg. Tros gyfnod mae’r canlyniadau yn y ddau gyfnod allweddol yn dangos cynnydd da ym mron pob agwedd yn y ddwy iaith.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 66 o ymatebion i'r holebion gan rieni ac roeddent yn unfrydol bod eu plant yn hoffi'r ysgol.

Mae bron pob un yn credu:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau

ac mae'r rhan fwyaf yn credu:

- bod plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- bod  plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; a'u
- bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 106 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ac roeddent yn unfrydol:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae bron pob un yn credu:

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yn gweld y gwaith yn anodd neu yn poeni neu ofidio am rhywbeth; a
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae rhan fwyaf yn credu bod:

- gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; a bod
- plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Eirian Youngman | Arolygydd Lleyg |
| Clive Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhiannon Dixon | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |